Y traddodiad digidol: Y Gymraeg yn gyfrwng diwylliant, treftadaeth a thechnoleg

Meri Huws: Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg

Canolbwyntia'r cyflwyniad hwn ar waith Comisiynydd y Gymraeg ym maes technoleg gwybodaeth a chyfieithu gan bwysleisio'r potensial sydd i wneud defnydd arloesol o dechnoleg yn y maes hwnnw. Rhoddir sylw penodol hefyd i gyfrifoldeb unigryw'r Comisiynydd i argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru a'r modd y gall y gwaith hwnnw gyfrannu at warchod ein treftadaeth yn ogystal â bod yn allwedd i'w deall.



Mae'r byd technoleg yn datblygu ar garlam ac yn sgil hyn daw cyfleoedd cyffrous i roi'r Gymraeg ar y map a sicrhau ei bod yn parhau'n gyfrwng perthnasol i siaradwyr Cymraeg heddiw ac yfory.

Daw cyfleoedd gwerthfawr hefyd i ailymweld â hanes a threftadaeth ddiwylliannol Cymru gan ddefnyddio systemau technolegol nid yn unig fel modd o gyflwyno hanes, iaith a diwylliant i genedlaethau newydd, ond fel modd o ddiogelu'r elfennau hynny a chadw gwybodaeth werthfawr ar glawr, neu ar gwmwl!

Ystyrir yma, felly, le'r Gymraeg fel cyfrwng sy'n bont rhwng ddoe, heddiw ac yfory wrth iddi fanteisio ar dechnoleg ddigidol.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner